**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

4 Chwefror 2022

Annwyl Lywydd

Yr adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr 2022, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2022.

Fel y byddwch yn gwybod, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eang, oherwydd ei fod yn ei hanfod yn cyfuno gwaith Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar Filiau Cydgrynhoi.

Ers i'r Pwyllgor gael ei sefydlu, rydym wedi treulio'r rhan fwyaf o'n hamser yn craffu ar is-ddeddfwriaeth a memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â Biliau'r DU. O ran is-ddeddfwriaeth, mae'n werth nodi bod y Cwnsler Cyffredinol, mewn llythyr at y Pwyllgor ar 17 Ionawr, wedi nodi bod 384 o offerynnau statudol wedi'u gwneud yn 2021, o gymharu â chyfartaledd o 310 yn y 10 mlynedd cyn hynny. O ran y memoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi synnu at nifer y memoranda sy'n cael eu gosod, ac mewn llythyr atoch ar 29 Hydref 2021 gwnaethom dynnu sylw at rai o'n pryderon ynghylch ein gallu i graffu ar y rhain yn effeithlon.

Er bod gennym slot wythnosol ar gyfer cyfarfodydd, gwnaethom gydnabod o'r cychwyn y byddai ein cylch gwaith yn heriol, felly gwnaethom fabwysiadu ffordd o weithio i ymateb i'r heriau hyn. Er enghraifft, rydym wedi bod yn trafod ac yn cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd i roi sicrwydd i randdeiliaid ein bod yn ystyried pob agwedd ar ein cylch gwaith fel mater o drefn, gan gynnal sesiynau tystiolaeth untro (gan gynnwys sesiynau rheolaidd yng nghwmni'r Cwnsler Cyffredinol) i

graffu ar faterion penodol o bwys. Hefyd, defnyddir y sesiynau hyn i helpu i lywio ymchwiliadau posibl yn y dyfodol.

Byddwch hefyd yn ymwybodol nad yw swm y gwaith deddfwriaethol yn lleihau. Felly, i'n galluogi i graffu ar yr holl ddeddfwriaeth sy'n codi, byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein hystyriaeth o faterion eraill o fewn ein cylch gwaith.

Er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu, a'r heriau ehangach sy'n wynebu'r Senedd, rydym o'r farn bod ein Pwyllgor yn gweithio'n dda a bod yr agweddau amrywiol ar ein cylch gwaith yn cydblethu.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni gynnal cyfarfodydd hwy o bryd i'w gilydd, gan ymestyn i foreau Llun, neu, yn amodol ar bwysau deddfwriaethol, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn caniatâd i gyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos.

Rydym yn fwy na hapus i drafod y materion hyn mewn rhagor o fanylder yn y dyfodol, yn ôl yr angen.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd